Cynhaliwyd arolwg o bob un o 16,575 o filltiroedd y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol gan dîm o aseswyr annibynnol yn ystod 2015 a 2016 a chofnodwyd yr holl nodweddion allweddol, yn cynnwys y math o arwyneb, lled, goleuo, rhwystrau ac arwyddion, yn ogystal â chategori'r ffordd ar gyfer rhannau'r Rhwydwaith sydd ar-y-ffordd.

Cofnodwyd y data yn y maes ar ddyfeisiau llaw, cyn ei uwchlwytho i'n system wybodaeth ddaearyddol ar-lein (GIS) i'w ddadansoddi.

Mae data'r archwiliad wedi rhoi cipolwg inni ar gyflwr y

Rhwydwaith ac mae'n rhoi lefel o ddealltwriaeth a throsolwg o'r Rhwydwaith na fu erioed ar gael o'r blaen.

Er mwyn cymharu gwahanol rannau o'r llwybrau, mae Sustrans wedi datblygu system sgorio Mesur Lefel Gwasanaeth wedi'i seilio ar bedwar dangosydd ansawdd llwybr:

- Ansawdd yr arwyneb
- Arwyddion
- Llif
- Diogelwch o ran traffig

### Ansawdd yr arwyneb

#### A yw arwyneb y llwybr yn ddigon llyfn i ddefnyddio pob math o feic yma?

Mae pob rhan sydd ar y ffordd yn cael sgôr cymharol uchel gan mai arwyneb llyfn sydd ganddynt ar y cyfan. Mae arwyneb rhannau di-draffig yn wael mewn rhai llefydd ac mae'r sgôr yn y mesur hwn yn dangos hynny.

### Arwyddion

#### A oes modd dilyn y llwybr hwn heb fap?

Mae'r sgôr yn dangos a yw'r rhan hwnnw o'r llwybr wedi'i arwyddo i'r ddau gyfeiriad, i un cyfeiriad, neu ddim o gwbl.

### Llif

#### A oes modd cynnal cyflymder hamddenol (tua 8 m.y.a. yn gyffredinol) yn barhaus ac yn ddiogel yn y rhan hwn?

Y prif gyfyngiadau ar gyfer y mesur hwn yw lled y llwybr, manau cyfyng a rhwystrau cyfyngol. (Gall cyflymder hamddenol fod yn arafach na 8 m.y.a. dan rai amgylchiadau.)

## Diogelwch o ran traffig

Y cwestiwn yr oedd angen i'n harolygwyr ei ateb oedd:

#### A yw hwn yn llwybr y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn caniatáu i blentyn 12 oed feicio arno ar ei ben ei hun?

Dyma'r mesur mwyaf goddrychol gan ei fod wedi'i seilio ar asesiad yr arolygwr am addasrwydd rhan o ffordd. O ganlyniad i anghysondebau rhwng arolygwyr, mae Sustrans wedi caffael data traffig INRIX, sy'n rhoi mesur gwrthrychol o lefel a chyflymder traffig, wedi'i seilio ar wybodaeth gan fflydoedd masnachol, GPS, tyrau ffonau symudol, dyfeisiau symudol a chamerau.

Mae hyn ein galluogi i osod meini prawf trothwy ar gyfer rhannau sydd ar y ffordd a diffinio beth fyddai'n dderbyniol ar ran lôn dawel o'r Rhwydwaith. Dilyswyd y data INRIX gan ddefnyddio data cyfrif traffig gwirioneddol ar gyfer yr holl

ffyrdd yng Nghernyw, gyda diolch i Gyngor Cernyw.

Pwysolir y mesur diogelwch i gydnabod y dylai fod gan llwybr di-draffig sgôr diogelwch traffig uwch na llwybr ar y ffordd.

- Llwybr di-draffig +6
- Rhan ar y ffordd sy'n diwallu meini prawf traffig lonydd tawel +4
- Ffyrdd eraill -4

Categori Trefol Gwledig	Cyflymder Cyfartalog y Ffordd <sup>1</sup>	Mynegai Lefel Traffig INRIX <sup>2</sup>	Lefel traffig cyfatebol AADT <sup>3</sup>
Ardaloedd trefol neu ardaloedd gwledig adeiledig	<= 15 mph	<= 11	2,500
Gwledig	<= 25 mph	<= 9	1,000

## Sgorio

Mae system sgorio pedwar lefel ar gyfer pob mesur, naill ai Ydy, Efallai, Annhebygol a Nag ydy, a phennir sgôr o 3, 2, 1 neu 0.

Sgôr	3	2	1	0
Lefel	Ydy	Efallai	Annhebygol	Nag ydy

## Categoriâu

Y sgôr uchaf bosibl ar gyfer rhan di-draffig o safon uchel yw 15 pwynt, ac ystyrir bod hyn yn cyrraedd y safon Da lawn. Caiff rhannau â sgôr is eu categorioedd fel Da, Gwael, neu Wael lawn, fel a ganlyn:

Sgôr	15	10-14	6-9	0-5
Categori	Da lawn	Da	Gwael	Gwael lawn

1. Cydnabyddir mai dim ond amcangyfrif o nodweddion cyflymder ffordd a geir o gyflymderau cyfartalog. Fel rhan o welliannau i rannau o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol sydd wedi'u dynodi'n lonydd tawel, bydd gofyn cael cyfyngiad cyflymder o 40 m.y.a. mewn ardaloedd gwledig (neu 20 m.y.a. mewn ardaloedd adeiledig).

2. Mynegai Lefel Traffig INRIX – mesurwyd ar raddfa o 1–16, lle mae 1 yn lefel traffig isel iawn, ac mae 16 yn lefel traffig uchel iawn

3. AADT – Annual Average Daily Traffic: mae hwn yn fesur o lif traffig a dyma gyfanswm lefel y traffig ar briffordd neu ffordd am flwyddyn wedi'i rannu â 365 diwrnod.

## Adolygiad ffisegol a chynlluniau gweithredu

Rydym wedi datblygu saith o adolygiadau ffisegol a chynlluniau gweithredu, un i bob un o ranbarthau daearyddol a gwledydd y Deyrnas Unedig, ac mae'r rhain yn elfen allweddol o'r rhan o'r adolygiad sy'n trafod 'Ei drwsio'.

Mae pob cynllun gweithredu yn diffinio cyflwr y Rhwydwaith yn ei ardal, yn amlinellu'r blaenoriaethau strategol ar gyfer y rhanbarth neu'r genedl, ac yn dangos y nifer o filltiroedd sydd angen gwelliannau er mwyn i'r Rhwydwaith yn yr ardal gyrraedd safon Dda a Da lawn.

Cyflwynir prosiectau ysgogi ym mhob un o'r cynlluniau, ac fe'u dewiswyd i ategu mathau amrywiol o brosiectau (uwchraddio rhannau ar y ffordd presennol, gwella llwybrau di-draffig, mynd i'r afael â chroesfannau a chyffyrdd peryglus, creu coridorau ar gyfer llwybrau newydd), yn ogystal â chydabod yr amrywiaeth daearyddol a'r gallu i gyflawni o fewn amserlen dynn.

Bydd rhoi'r prosiectau ysgogi ar waith yn creu momentwm wrth adfywio'r Rhwydwaith yn sgil adolygiad.

### Cynlluniau datblygu'r Rhwydwaith

Cefnogir y cynlluniau gweithredu gan gynlluniau datblygu Rhwydwaith cyflawn sy'n cyflwyno cynlluniau hirdymor manwl ar gyfer y rhwydwaith rhanbarthol/cenedlaethol cyfan.

Bydd timau datblygu Rhwydwaith Sustrans yn datblygu'r cynlluniau hyn ym mhob ardal, mewn ymgynghoriad â'r panelau ymgynghorol, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid eraill, a byddant yn ddogfennau byw a fydd yn cael eu diweddarau'n barhaus, gan ddod yn lasbrint ar gyfer datblygu'r Rhwydwaith.

### Egwyddorion dylunio ar gyfer y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol

Un amcan allweddol ar gyfer pob adolygiad ffisegol a chynllun gweithredu yw manylu ar yr hyn sydd ei angen i gyflawni safon Dda lawn ar gyfer y Rhwydwaith cyfan – hynny yw, safon sy'n rhoi profiad cyson, diogel, cwbl hygyrch

i'w ddefnyddwyr. Bydd hyn yn golygu uwchraddio elfennau hanfodol y llwybrau – arwyddion da, arwyneb llyfn, digon llydan, dim rhwystrau i atal symudiad di-dor, a chysylltiadau diogel â thraffig modurol – lle na chyrhaeddir y safon ar hyn o bryd.

Y dull a ffafrir ar gyfer rhannau ar-y-ffordd fydd creu llwybrau di-draffig amgen. Bydd y rhannau hyn naill ai oddi ar y ffordd (wedi'u lleoli oddi wrth y ffordd) neu ar isadeiledd hollol ar wahân o fewn coridor y ffordd, a phob llwybr yn addas i blentyn 12 oed ei ddefnyddio ar ei ben ei hun.

Lle nad yw'n bosibl creu llwybrau di-draffig, gall fod yn bosibl newid cymeriad y ffordd i greu rhannau sy'n lonydd tawel. Bydd gan lonydd tawel gyfyngiad cyflymder o 40 m.y.a. neu lai, a llif traffig o lai na 1,000 AADT mewn ardaloedd gwledig (20 m.y.a. a 2,500 AADT mewn ardaloedd trefol). Ar ben hynny, byddant yn cynnwys arwyddion traffig a marciau ar y ffordd i amlygu'r cyfyngiad cyflymder a hysbysu gyrrwyr cerbydau y dylent ddisgwyl dod ar draws pobl yn cerdded, yn beicio neu'n marchogaeth ar y ffordd ac y dylent fod yn weledol fel bod pawb sy'n defnyddio'r ffordd yn gallu gweld ei gilydd.

Lle mae llwybrau di-draffig yn croesi ffyrdd, neu lonydd tawel yn croesi ffyrdd eraill prysurach, bydd angen i'r croesfannau neu'r cyffyrdd hyn ganiatáu i bobl sy'n defnyddio'r Rhwydwaith eu croesi'n ddiogel.

I gyflawni safon Dda lawn, crëwyd set o egwyddorion dylunio fel sail ar gyfer dyluniad rhannau newydd a'r rhannau sydd am gael eu gwella. Cyflwynir yr egwyddorion dylunio hyn yn ein hadroddiad, Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol: Llwybrau i Bawb.

Lle nad yw'n bosibl gwella rhan presennol o'r Rhwydwaith, gall fod angen ystyried dad-ddynodi. Bydd y broses hon yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a byddai angen cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y Rhwydwaith yn gyffredinol yn rhedeg yn ddi-dor.

## 2. Trosolwg o'r Rhwydwaith yng Nghymru

Mae 1,690 o filltiroedd, sef tua 10% o gyfanswm y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig, yng Nghymru, ac yma mae peth o'r dwysedd uchaf o lwybrau di-draffig.

Mae 64% o'r Rhwydwaith, cyfanswm o 1,075 o filltiroedd, ar y ffordd. Mae 154 o'r milltiroedd hyn ar ffyrdd A neu B, a 921 o filltiroedd ar ffyrdd bychain annosbarthedig, arwydd mai natur wledig sydd i'r Rhwydwaith at ei gilydd.


Mae'r 36% o'r Rhwydwaith sy'n weddill, 614 milltir i gyd, ar lwybrau di-draffig.

Mae'r Rhwydwaith yng Nghymru yn cynnwys nifer o lwybrau pellter hir adnabyddus, yn cynnwys y Llwybr Celtaidd sy'n

rhychwantu De Cymru, Lôn Las Cymru sy'n rhedeg rhwng y gogledd a'r de, ac sy'n cynnwys Taith Taf, llwybr poblogaidd rhwng Caerdydd ac Aberhonddu, a Lôn Cambria/Lôn Teifi sy'n rhychwantu canolbarth Cymru rhwng y gorllewin a'r dwyrain. Canfu astudiaeth effaith economaidd o'r Llwybr Celtaidd a Thaith Taf yn 2008 bod dros 2.6 miliwn o deithiau defnyddwyr y flwyddyn ar y llwybrau hyn, ac amcangyfrifwyd bod hyn yn cynhyrchu buddsoddiad i'r economi leol o £75 miliwn y flwyddyn.

Mae'r Rhwydwaith yn mynd trwy dri Pharc Cenedlaethol Cymru ac yn cysylltu â dinasoedd Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe yn y de, ac ardaloedd trefol pwysig eraill fel Aberystwyth, Bangor ac arfordir Gogledd Cymru.


### Map cenedlaethol



## Cyflwr y Rhwydwaith

Mae ein dadansoddiad o'r archwiliad wedi rhoi darlun o gyflwr y Rhwydwaith yng Nghymru, a chafodd ei holl rannau eu graddio'n Dda lawn, yn Dda, yn Wael neu'n Wael lawn. Gellir creu adroddiadau hefyd ar gyfer rhannau ar-y-ffordd a rhannau di-draffig y Rhwydwaith ar wahân, fel a ganlyn.

### Yng Nghymru:




## Canfod y materion sydd angen sylw

Gellir creu adroddiadau penodol sy'n dangos pa rai o'r prif broblemau – diogelwch traffig, arwyneb, arwyddion, llif – sy'n peri i'r llwybrau danberfformio.

Mae hanner (51%) y problemau ar y Rhwydwaith yng Nghymru yn bodoli oherwydd pryderon diogelwch yn

gysylltiedig â thraffig, 23% yn broblemau llif, 19% yn broblemau arwyneb a 7% yn broblemau arwyddion.

Gellir creu adroddiadau hefyd ar gyfer rhannau ar-y-ffordd a rhannau di-draffig y Rhwydwaith ar wahân, fel a ganlyn.



# 3. Blaenoriaethau strategol i Gymru

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwella'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yng Nghymru fel a ganlyn. Mae'r rhain yn ychwanegol i'r blaenoriaethau ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan, sef hygyrchedd a gwella arwyddion, fel yr amlinellir yn Rhan 5:

## Gwella'r llwybrau presennol

### Rhoi diogelwch yn gyntaf

Y flaenoriaeth gyntaf fydd mynd i'r afael â rhannau o'r Rhwydwaith sy'n peri pryderon diogelwch. Mae hynny'n cynnwys ffordd prysur a chyflym iawn, yn cynnwys holl ffordd A a B, a gwella cyffyrdd a chroesffannau peryglus.

### Profiad cyson i ddefnyddwyr

Yr ail flaenoriaeth yw sicrhau safon gyson i brofiad defnyddwyr y Rhwydwaith. Yn y lle cyntaf, byddwn yn canolbwyntio ar wella'r rhannau di-draffig sy'n derbyn y nifer fwyaf o gwynion ac sy'n effeithio ar enw da'r Rhwydwaith cyfan. Bydd pwyslais ar wella'r arwyneb, atgyweirio arwyddion coll neu wedi'u difrodi, a chael gwared ar rhwystrau cyfyngol a manau cyfyng.

## Creu llwybrau newydd

### Llenwi'r dolenni coll a chau'r bylchau rhwng llwybrau

Mae'r cynlluniau gweithredu yn nodi dolenni coll. Bydd rhannau newydd yn bodloni safon ansawdd y Rhwydwaith a bydd yn canolbwyntio ar gwblhau llwybrau allweddol neu rannau critigol, gan ddarparu cydlyniant i'r rhanbarth ac, mewn rhai achosion, yn gwella cysylltiadau rhwng rhanbarthau.

### Creu llwybrau newydd i wella cysylltedd

Mewn rhai achosion, bydd angen llwybrau neu goridorau newydd i sicrhau cysylltedd effeithiol.

## Dad-ddynodi llwybrau

### Asesu a dad-ddynodi llwybrau

O'r Rhwydwaith yng Nghymru, mae 592 milltir (35%) wedi'i gategoreiddio'n Wael lawn. Mae'r rhannau hyn i gyd ar y ffordd, ac mae'r rhan fwyaf yn ffordd A a B prysur. Mae nifer ohonynt yn cynnwys cyffyrdd peryglus, mae gan rai arwyddion gwael, ac mae arwyneb garw mewn rhai llefydd.

Byddwn yn ystyried dad-ddynodi rhai o'r rhannau ar-y-ffordd sy'n Wael lawn, yn enwedig lle nad oes llawer o ddefnydd ohonynt a lle mae llwybrau eraill yn bodoli, o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae angen cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y Rhwydwaith yn ei gyfanrwydd yn un cysylltiedig, a gallai rhai gwelliannau i'r rhannau ar y ffordd helpu i liniaru'r sefyllfa.

Mae 24 milltir (4%) o'r Rhwydwaith di-draffig wedi'i gategoreiddio'n Wael, yn bennaf o ganlyniad i broblemau arwyneb. Nid yw hyn yn arwydd o broblemau diogelwch, gan fod cyflymder a lefel traffig yn cael ei bwysoli, ond nid oes amheuaeth fod pryderon diogelwch yn dod gyda defnyddio rhannau israddol o llwybrau di-draffig.

Dim ond yn erbyn ystyriaethau strategol ehangach y caiff dad-ddynodi ei ystyried, a hynny mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid perthnasol. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer ardaloedd gwledig lle gellid effeithio er gwaeth ar natur barhaus a chysylltiedig y llwybr.

Un enghraifft yng Nghymru yw Llwybr Cenedlaethol 47, y Llwybr Celtaidd Uchel rhwng cymoedd y Rhondda a Chastell Nedd yn Ne Cymru.

O ystyried anawsterau uwchraddio'r llwybr hwn i safonau llawn y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a natur y dirwedd, awgrymir dad-ddynodi'r llwybr hwn o'r Rhwydwaith a'i hyrwyddo fel llwybr rhanbarthol ar gyfer beiciau mynydd a hamdden.




# 4. Meintioli'r uchelgais i Gymru

## Cau'r bwloch i gyrraedd Da lawn

Mae'r cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar godi'r Rhwydwaith cyfan yng Nghymru i safon Dda lawn gyson.

Mae'r graff isod yn dangos lleiafswm y milltiroedd, ar gyfer pob categori, y mae angen eu gwella i wneud y Rhwydwaith cyfan yng Nghymru yn Dda lawn:

## Y bwloch i gyrraedd Da lawn



## Gwelliannau sydd eu hangen ar lwybrau ar y ffordd

Mae angen ail-leoli <b>1,075 o filltiroedd</b> o'r Rhwydwaith ar-y-ffordd i lwybrau di-draffig.	Mae <b>69 milltir</b> angen gwelliannau arwyddion.	Mae <b>146 milltir</b> sydd â rhwystrau (fel gridiau gwartheg) neu fannau cyfyng sydd angen sylw.	Mae <b>423 milltir</b> angen gwelliannau arwyneb.
---	--	---	---

## Gwelliannau sydd eu hangen ar lwybrau di-draffig

Mae <b>114 milltir</b> o'r Rhwydwaith di-draffig angen gwelliannau arwyddion.	Mae <b>315 milltir</b> angen gwelliannau arwyneb.	Mae <b>535 milltir</b> angen gwelliannau llif.
---	---	--


## Cyffyrdd a chroesfannau

Mae  
**33 croesfan**  
wedi'u nodi fel rhai sydd angen sylw i'w gwneud yn ddiogel. Mae hyn wedi'i seilio ar asesiad cynhwysfawr o groesfannau a chyffyrdd a gynhaliwyd yn 2017 ac ymgynghoriadau pellach ar gyfer adolygiad y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.


## Cau'r bwloch i gyrraedd 'Da'

Bydd y cam cyntaf o wneud gwelliannau yn canolbwyntio ar gael y Rhwydwaith i safon Dda gyson.

## Y bwloch i gyrraedd Da



## Gwelliannau sydd eu hangen ar lwybrau ar y ffordd



## Gwelliannau sydd eu hangen ar lwybrau di-draffig



# 5. Blaenoriaethau'r Deyrnas Unedig gyfan

## Hygyrchedd

Mae galluogi holl ddefnyddwyr y Rhwydwaith i gael mynediad at y Rhwydwaith yn hollbwysig ac mae'n elfen allweddol o'r weledigaeth. Rydym eisiau i'r Rhwydwaith cyfan fod yn addas i bawb a darparu ar gyfer pob math o feiciau, yn cynnwys beiciau tair olwyn, beiciau cargo, beiciau llaw, beiciau â threlar, a beiciau tandem, yn ogystal â bod yn hygyrch i gerddwyr a defnyddwyr gyda choetsis babis, cadeiriau olwynion a sgwteri symudedd.

Cofnodir rhwystrau cyfyngol, rampiau serth, cyrbau uchel a phroblemau lled ar y Rhwydwaith ei hun yn yr archwiliad ffisegol o dan y mesur lefel gwasanaeth 'Llif'.

- Mae gan **681 o filltiroedd** o lwybrau di-draffig Cymru broblemau o ran lled a/neu rwystrau sy'n atal llif sy'n aml yn golygu nad ydynt yn hygyrch i bawb.

Fel cam cyntaf wrth fynd i'r afael â hyn, argymhellir bod grwp gwaith hygyrchedd yn cael ei sefydlu i ganolbwyntio ar faterion hygyrchedd ar gyfer y Rhwydwaith penbaladr. Bydd hyn yn cynnwys arbenigwyr yn y maes ynghyd â gwirfoddolwyr lleol a grwpiau cymunedol.

## Arwyddion

Mae problemau gydag arwyddion yn gyffredin i'r Rhwydwaith cyfan a gellir eu rhannu'n dri phrif faes:

- problemau arwyddion ar y Rhwydwaith ei hun sydd angen eu hatgyweirio neu eu haddasu yn cynnwys arwyddion coll, cuddiedig neu wedi'u difrodi, neu arwyddion aneglur, dryslyd neu wedi'u cam-alinio
- arwyddion sy'n hyrwyddo'r Rhwydwaith yn cynnwys gwybodaeth addysgol, mapiau lleol, pellteroedd i atyniadau, gwasanaethau lleol a gwybodaeth arall i ddefnyddwyr
- Arwyddion sy'n cyfeirio defnyddwyr at y Rhwydwaith – o ganol trefi, gorsafoedd trenau, llwybrau sy'n cysylltu, a manau eraill o ddiddordeb.

Mae **183 o filltiroedd** (11%) o'r Rhwydwaith yng Nghymru angen gwelliannau arwyddion:

- Mae **69 o'r milltiroedd** hyn ar y ffordd a bydd angen caniatâd yr Awdurdod Priffyrdd perthnasol. Mae'n bosibl mai Llywodraeth Cymru fydd yr awdurdod hwn (Cefnffyrdd) neu'r Awdurdod Lleol (Ffyrdd Sirol)
- Mae **114 o'r milltiroedd** hyn ar rannau di-draffig

# 6. Prosiectau ysgogi

## Y broses o bennu prosiectau

Mae'n bwysig bod canlyniadau adolygiad y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn cael eu cefnogi gan weithredu di-oad a gweladwy.

Mae canlyniadau'r archwiliad ffisegol wedi galluogi timau Sustrans i bennu nifer o brosiectau ysgogi y gellir eu cyflawni erbyn 2023.

Y prosiectau ysgogi hyn fydd canolbwynt y sylw unwaith caiff y cynlluniau gweithredu eu cyhoeddi a byddant yn ganolog i wthio tuag at yr adnoddau pellach a'r amser sydd ei angen i gyflawni'r gwelliannau i'r Rhwydwaith.

Bydd y prosiectau hefyd yn ein galluogi i roi prawf ar systemau llywodraethu newydd, y strategaeth farchnata, mecanweithiau cyllido, cyfranogiad cymunedol a gwirfoddolwyr, cynnal a chadw a monitro a ddatblygwyd fel rhan o adolygiad y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.

Mae'r prosiectau ysgogi wedi'u lleoli mewn ardal ddaearyddol ar wasgar o bob rhan o'r rhanbarth neu'r wlad a byddant yn rhychwantu'r holl categorïau blaenoriaethol strategol a nodwyd wrth ymgynghori â phaneli cynghori'r adolygiad a phartneriaid eraill.


Pan fo prosiectau ysgogi'n llwyddo i ddatrys problemau allweddol o fewn ei categori, disgwylir y bydd modd defnyddio'r prosiectau hyn fel glasbrint ar gyfer gwelliannau i'w gweithredu ar draws gweddill y Rhwydwaith.

Mae'r broses ddethol ar gyfer y prosiectau ysgogi wedi cynnwys ymgynghori â'r paneli cynghori rhanbarthol a chenedlaethol yn ogystal â'r grwpiau gwirfoddolwyr a staff Sustrans sy'n gweithio ar y Rhwydwaith.

Defnyddiwyd rhestr gwirio blaenoriaethau i helpu i bennu a blaenoriaethu'r prosiectau:


- A oes modd **cyflawni'r** prosiect erbyn 2023?
- A yw'r prosiect yn cefnogi **nodau strategol** y RhBC yn y rhanbarth?
- A yw'r gwelliant yn cefnogi **mynediad i bawb**?
- A yw'r prosiect yn cefnogi darparu **rhwydwaith di-draffig**?
- A yw'r prosiect yn gwella **diogelwch** y rhan o'r RhBC y mae'n ymdrin ag ef?
- A yw'r prosiect yn gwella rhan o'r RhBC sy'n cael ei **dddefnyddio'n helaeth ar hyn o bryd**?
- A oes **potensial da am gynyddu'r defnydd** ohono yn y dyfodol?
- A oes **cyllid ar gael** i'r prosiect?
- A oes **cefnogaeth gan dirfeddianwyr** i'r prosiect?
- A oes **cefnogaeth gymunedol** i'r prosiect?

## Categoriâu blaenoriaethau strategol



## Prosiectau ysgogi Cymru

### Categori A1: Newid cymeriad y ffordd i'w gwneud yn lôn dawel



#### Llwybr Cenedlaethol 8 – Ail-arwyddo Lôn Las Cymru

**PAM** Llwybr strategol allweddol rhwng y gogledd a'r de. Mae Lôn Las Cymru yn llwybr eiconig yng Nghymru ac mae cyfle i'w ail frandio yn unol â menter Ffordd Cymru Croeso Cymru i hybu ei rôl fel ased dwristiaeth sylweddol a choridor trafndiaeth sy'n darparu buddion economaidd i nifer o'r ardaloedd a'r busnesau gwledig ar y llwybr.

**Y BROBLEM** Mae nifer o'r arwyddion yn hen, ar goll neu'n rhai dros dro, sy'n cael effaith negyddol ar brofiad defnyddwyr.

**YR ATEB** Cynnal archwiliad arwyddion cynhwysfawr ac uwchraddio/disodli arwyddion. Cysylltu â brandio Ffordd Cymru.

### Categori A2: Newid llwybr ar y ffordd yn llwybr di-draffig o fewn/wrth ymyl y briffordd



#### Llwybr Cenedlaethol 84 – Pont Rheilffordd 'H', Y Rhyll

**PAM** Pont allweddol sy'n croesi'r rheilffordd ar Lwybr Cenedlaethol 84 yn agos i ganol tref y Rhyll. Mae'r fan hon yn bwynt gwahanu allweddol ar Lwybr Cenedlaethol 84, yn ogystal â chyffordd bwysig sy'n effeithio ar y rhwydwaith teithio llesol ehangach yn y Rhyll.

**Y BROBLEM** Mae'r ffordd a'r palmentydd yn rhy gul ac mae yma botensial am broblemau diogelwch.

**YR ATEB** Darparu llwybrau newydd (llwybrau a rennir) ar ddynesyfeydd y bont a throsti.

### Categori A3: Ail-leoli llwybr ar y ffordd i llwybr di-draffig amgen



#### Llwybr Cenedlaethol 5 Y Fflint – Cei Connah

**PAM** Mae angen gwella rhan Gwael lawn sy'n rhan strategol o Lwybr Cenedlaethol 5, gan gysylltu'r rhannau di-draffig ar bob pen. Mae hwn yn goridor trafndiaeth strategol allweddol ar hyd arfordir Gogledd Cymru ac mae'r rhan hwn yn cynrychioli bwlg amlwg yn narpariaeth di-draffig y llwybr. Mae angen yma hefyd i wella cysylltiadau â'r rhwydweithiau ehangach yn y Fflint ac yng Ngheir Connah.

**Y BROBLEM** Mae'r aliniad presennol ar ffordd brysur, gyda llawer o draffig sy'n symud yn gyflym.

**YR ATEB** Darparu aliniad di-draffig amgen gyda phont newydd i groesi'r rheilffordd.

<b>Allwedd</b>	Cyflwr y Rhwydwaith		— — — — —	Ail-aliniad arfaethedig o'r llwybr
	— — — — —	Gwael lawn	— — — — —	Da lawn
	— — — — —	Gwael	— — — — —	Da
	● / ✕			Croesfan/rhwyrstr i'w wella
	— — — — —			Cyfle ar gyfer mesurau gwelliant

**Categori B4: Gwella ansawdd y llwybr (arwyneb, arwyddion, lled)**



**Llywyr Cenedlaethol 8 – Taith Taf, Caerdydd**

**PAM** Rhan bwysig iawn o'r Rhwydwaith trwy Gaerdydd. Mae angen iddo fod o safon dda ar gyfer y rhai sy'n teithio i'r gwaith yn ogystal â'r rhai sy'n hamddena arno. Mae'r llwybr hwn yn lôn las eiconig trwy galon y ddinas, yn cysylltu parciau a manau gwyrdd â chyrchfannau ac atyniadau allweddol.

**Y BROBLEM** Mae rhai rhannau yn israddol o ran arwyneb/ arwyddion ac mae hyn yn dwysáu anghydfod rhwng ei ddefnyddwyr.

**YR ATEB** Gweithredu newidiadau yn dilyn astudiaeth dylunio Taith Taf 2017.

**Categori B5: Llwybr di-draffig presennol – gwella croesfannau ffordd**



**Llywyr Cenedlaethol 46 – Croesfan Llan-ffwyst**

**PAM** Croesfan strategol allweddol ar Lwybr Cenedlaethol 46 sy'n cysylltu â'r Fenni. Mae'r ardal hon wedi'i gwahanu gan ffordd brysur yr A465 ac afon Wysg. Mae hwn yn bwynt critigol sy'n rhwystri i ddefnyddwyr gyrraedd canol tref y Fenni a'r rhwydwaith strategol ehangach a wasanaethir gan Lwybr Cenedlaethol 46.

**Y BROBLEM** Mae'n anodd gweld wrth ddefnyddio'r groesfan bresennol ac mae llawer o draffig cyflym yno.

**YR ATEB** Adeiladu pont newydd ac ail-alinio'r llwybr.

**Categori B5: Llwybr di-draffig presennol – gwella croesfannau ffordd**



**Llywyr Cenedlaethol 8 – Croesfan y Faenol**

**PAM** Croesfan allweddol dros gyffordd brysur ar Lôn Las Cymru. Mae'r lleoliad yn gyffordd rhwng Llywyr Cenedlaethol 8 a Llwybr Rhwydwaith lleol (Lôn Adda) ac mae'r sefyllfa bresennol yn gwneud y llwybrau hyn yn llai atyniadol i ddefnyddwyr lleol a phobl sy'n ymweld â'r ardal.

**Y BROBLEM** Dim darpariaeth rheoli traffig ar hyn o bryd.

**YR ATEB** Datblygu croesfan raddedig, wedi'i gwahanu neu ei rheoli, i wella diogelwch.

**Categori B6: Llwybr di-draffig presennol – gwelliannau gygrchedd**



**Llywyr Cenedlaethol 8 – Rhwystrau ar lwybr Taith Taf**

**PAM** Problem allweddol ar gyffordd brysur ar lwybr Taith Taf. Mae'n debyg mai Taith Taf yw'r rhan fwyaf adnabyddus o'r Rhwydwaith yng Nghymru, yn cysylltu Caerdydd ag Aberhonddu ac yn mynd heibio tirweddau treftadaeth ddiwydiannol a diwylliannol. Dylai'r rhan rhwng Caerdydd a Merthyr fod o safon dda i sicrhau y caiff lefelau defnyddwyr eu cynnal a rhoi sicrwydd o brofiad cadarnhaol i'w ddefnyddwyr.

**Y BROBLEM** Mae rhwystrau mynediad, wedi'u dylunio'n wael yn cyfyngu ar fynediad i ddefnyddwyr dilys y llwybr.

**YR ATEB** Disodli'r rhwystrau â bolardiau neu ddyluniad arall sy'n cydymffurfio.

	Cyflwr y Rhwydwaith		
<b>Allwedd</b>	Gwael iawn	Da iawn	Ail-aliniad arfaethedig o'r llwybr
	Gwael	Da	Croesfan/rhwystri i'w wella
			Cyfle ar gyfer mesurau gwelliant

## Categori C: Cau bylchau rhwng llwybrau a/neu ychwanegu llwybrau newydd



### Llywybr Cenedlaethol 450 – Hwlfordd i Arberth

**PAM** Cyfle i ddarparu llwybr newydd fel rhan o'r allbwn o'r rhaglen gysylltu 'Bylchau Strategol yn y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol'. Er bod gan Sir Benfro gysylltiadau Rhwydwaith allweddol yng ngogledd a de'r sir, mae angen o hyd i ddatblygu llwybr canolog i gysylltu trefi allweddol Hwlfordd ac Arberth ac agor y cyfleoedd sylweddol sy'n bodoli i gysylltu â busnesau twristiaeth yn yr ardal.

**Y BROBLEM** Nid oes llwybr Rhwydwaith rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn mynd trwy ganol Sir Benfro

**YR ATEB** Canfod yr aliniad dewisol a darparu llwybr sy'n ddi-draffig yn bennaf i gysylltu â'r Rhwydwaith sy'n bodoli eisoes.




### Llywybr Cenedlaethol 88 – Caerdydd i Gasnewydd

**PAM** Dolen goll allweddol ar Lwybr Cenedlaethol 88 sy'n cysylltu dwy ddinas bwysig. Mae Caerdydd a Chasnewydd rhyngddynt yn cynrychioli cyfran sylweddol o boblogaeth Cymru ac mae'n hanfodol bwysig bod llwybr y Rhwydwaith rhyngddynt o safon gyson uchel a'i fod yn effeithiol ar gyfer y rhai sy'n teithio i'r gwaith a'r rhai sy'n hamddena arno. Mae'r llwybr hwn hefyd yn croesi rhan o dirwedd unigryw Gwastadeddau Gwent.

**Y BROBLEM** Mae nifer o rannau ar y ffordd yn disgyn islaw'r safon oherwydd cyflymder/cyfaint traffig. Hefyd, mae arwyneb/draenio gwael ar rannau di-draffig. Mae angen ystyried aliniad cyffredinol y llwybr.

**YR ATEB** Ail-ddylunio i gynnwys cymaint o lwybr di-draffig â phosibl ac ystyried newidiadau i drefn y ffordd.

## Map o'r prosiectau ysgogi



## 7. Casgliad

Er bod llawer o rannau'r Rhwydwaith yng Nghymru'n cyrraedd safon dda ac mai dim ond mân ymyraethau sydd eu hangen i gyrraedd safon Dda lawn, mae'n amlwg fod rhannau sylweddol ohono'n Wael neu'n Wael lawn.

Mae hyn yn gysylltiedig yn bennaf â chyflymder a chyfaint traffig sy'n effeithio ar sgorau diogelwch traffig rhannau'r Rhwydwaith sydd ar y ffordd, ac ystyriaethau llif neu arwyneb ar lwybrau di-draffig.

Mae'r blaenoriaethau a gyflwynir yn y cynllun gweithredu hwn yn ategu'r sefyllfa hon, yn arbennig wrth ymdrin â rhannau o lwybrau sydd ar ffyrdd A neu B prysur a chroesfannau allweddol.

Bydd y prosiectau ysgogi sydd i'w cyflawni erbyn 2023, yn gysylltiedig yn bennaf â chynlluniau darparu presennol awdurdodau lleol, yn cynnwys ffrydiau ariannu presennol ac arfaethedig fel y Gronfa Trafnidiaeth Leol trwy law Llywodraeth Cymru.

Gall rhestr ehangach o gynlluniau fod yn gronfa o brosiectau i'w hystyried wrth i gyfleoedd ariannu godi, yn gysylltiedig â strategaethau teithio llesol a thwristiaeth leol.

Bydd cynllun datblygu'r Rhwydwaith yn y tymor hirach yn ystyried bylchau yn y Rhwydwaith a bydd llwybrau newydd posibl yn ffitio o fewn gwelliannau i'r rhwydwaith.

### Cydnabyddiaeth

Dymuna Sustrans gydnabod y canlynol am eu cymorth wrth ymgymryd ag adolygiad y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yng Nghymru a'u cyfraniad at banel cyngori cenedlaethol adolygiad y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yng Nghymru.

- Meryl James (Cadeirydd)
- Alison Thomas (Llywodraeth Cymru)
- David Hern (Llywodraeth Cymru)
- Craig Mitchell (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)
- Carys Drew (Cyfoeth Naturiol Cymru)
- Jont Bulbeck (Cyfoeth Naturiol Cymru)
- Clare Cameron (Bargen Ddinesig Prifddinas/Ranbarth Caerdydd)
- Thom Hadfield (Croeso Cymru)
- David Morgan (Glandŵr Cymru )
- Ann Elias (Tyfu Canolbarth Cymru)
- Vincent Goodwin (Cyngor Sir Powys)
- Mark Stafford-Tolley (Grŵp Swyddogion Hawliau Tramwy Cyhoeddus)
- Ben Wilcox- Jones (Cyngor Sir Ddinbych)
- David Llewellyn (Parc Tirweddau'r Cymoedd)
- Simon Charles (Grŵp Trafnidiaeth Rhanbarthol Awdurdodau Lleol De Cymru)
- Matthew Gilbert (Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr)
- Siân Donovan (Pedal Power Caerdydd)
- Kevin Rahman-Doultrey (Pedal Power Caerdydd)